# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 15 Mawrth 2002

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ynghylch y mater o gyflogi gweithwyr dros dro mewn swyddfeydd canolog a lleol y Cynulliad Cenedlaethol, i ymgymryd â gwaith o natur parhaol. (WAQ16656) **W**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drosglwyddo pwerau i’r Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 36 Deddf Trydan 1989 i gynnwys yr holl bwerdau dros 50MW o ffermydd gwynt i orsafoedd niwclear. (WAQ16657)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg

**Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Yn dilyn WAQ16188, a fydd yr adroddiad hwn ar gael ar gyfraddau cenedlaethol safonol arferol BT. (WAQ16660)

**Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Yn dilyn WAQ16188, a fydd rhagolygon arbenigol gan Swyddfa’r Tywydd ar gyfer mynyddoedd Cymru ar gael ar y Rhyngrwyd. (WAQ16659)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Yn dilyn adroddiadau yn y Western Mail, a all gadarnhau y caiff drafft o Fesur GIG Cymru ei gyhoeddi ymhen ychydig wythnosau (WAQ16658)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Chymunedau

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A oes arolwg neu archwiliad o’r gwasanaethau Foyer a ddarperir yng Nghymru wedi’i gynnal ac os oes, pryd caiff y Pwyllgor wybod ei ganlyniadau. (WAQ16661)